**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran F**

**Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 29 Mawrth i'w hateb ar 12 Ebrill 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a Thai

**1. Christine Humphreys (Gogledd Cymru):** Pa ystyriaeth a roddwyd i'r canrannau amrywiol o Grant Refeniw Tai â Chymorth a roddir i brosiectau 'Foyer' yng Nghymru. (OAQ4746)

**2. Pauline Jarman (Canol De Cymru):** A wnaiff yr Ysgrifennydd bennu dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar hynt yr adolygiad o'r fformwla Asesu Gwariant Safonol. (OAQ4769) [R]

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae wedi eu cynnal â mudiadau fel Shelter Cymru yngln â digartrefedd yng Nghymru. (OAQ4747)

**4. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fydd yn cyflwyno unrhyw gynllun i gynorthwyo â chynnal a chadw ac atgyweirio parciau mewn ardaloedd trefol fel rhan o gynllun adfywio trefol ehangach. (OAQ4756)

**5. Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'n eu cymryd i adolygu effeithiolrwydd cynghorau lleol sy'n arbrofi â strwythurau democrataidd newydd. (OAQ4757)

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff ddatganiad ynghylch llwyddiant ymdrechion diweddar i annog strategaethau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. (OAQ4786)

**7. Brian Hancock (Islwyn):** A wnaiff ddatganiad ynghylch yr angen i sicrhau bod system ddosbarthu cronfeydd drwy'r awdurdodau lleol yn deg ac nad yw'n camwahaniaethu. (OAQ4767)

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Sawl annedd wag sydd gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2000. (OAQ4748) [R]

**9. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Yn dilyn cyflwyno system gabinet llywodraeth leol, pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod cynghorwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros blant sy'n derbyn gofal. (OAQ4777) [R]

**10. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa sylwadau y mae wedi eu derbyn yngln ag adolygiad y fformwla Asesu Gwariant Safonol ers y flwyddyn newydd. (OAQ4774)

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff osod uchafswm ar lwfansau cynghorwyr yng Nghymru. (OAQ4795)

**12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa fudiadau sy'n rhan o'r drafodaeth yngln ag adolygiad y fformwla Asesu Gwariant Safonol ar hyn o bryd. (OAQ4775)

**13. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A oes gan yr Ysgrifennydd gynlluniau i gyflwyno cynigion sy'n edrych ar dai cydweithredol fel opsiwn ym maes tai cymdeithasol. (OAQ4805)

**14. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Beth yw ei asesiad o effaith newidiadau diweddar i drethi ar berchnogaeth tai yng Nghymru. (OAQ4763)

**15. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff ddatganiad ar argaeledd llety brys tymor-byr i bobl ddigartref yng Nghymru. (OAQ4799)

**16. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynlluniau sydd ganddo i roi mwy o rym i awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill ym maes ardystio a rheoleiddio tai amlfeddiannaeth yn y sector rhentu preifat. (OAQ4755)

**17. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A oes gan yr Ysgrifennydd gynlluniau i gyflwyno cynigion sy'n edrych ar rôl bosibl tai cydweithredol ym maes tai cymdeithasol yng Nghymru. (OAQ4806)

**18. Jane Davidson (Pontypridd):** Pa gymorth penodol all y Cynulliad ei roi i awdurdodau lleol sy'n gweithredu cynlluniau cofrestru tai amlfeddiannaeth. (OAQ4745)

**19. Peter Rogers (Gogledd Cymru):** A wnaiff roi sicrwydd na fydd cyfanswm costau ardreth yr awdurdodau lleol ar barciau carafannau yng Nghymru yn cael mynd yn uwch na'r costau yn Lloegr. (OAQ4787)

**20. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff wneud sylwadau ar strategaethau datblygu tai mewn ardaloedd difreintiedig yn Nwyrain De Cymru. (OAQ4778)

**21. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod cynghorwyr ar y meinciau cefn yn medru archwilio gweithrediaethau cynghorau lleol yn effeithiol. (OAQ4796) [R]

**22. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff egluro statws Adroddiad Boyne ar lwfansau cynghorwyr yng Nghymru. (OAQ4803)

**23. David Melding (Canol De Cymru):** Sut mae'n bwriadu hyrwyddo bod yn agored mewn Llywodraeth Leol. (OAQ4800)

**24. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa dargedau sydd wedi eu gosod er mwyn gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwarae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. (OAQ4776)

**25. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cynulliad wneud datganiad ar y defnydd a wneir ar Orchmynion Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. (OAQ4807)

**26. Brian Gibbons (Aberafan):** A all yr Ysgrifennydd roi'r adroddiad diweddaraf i'r Cynulliad yngln â'r datblygiadau yn y gwaith ar fformwla ddyrannu Llywodraeth Leol. (OAQ4720)

**27. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff adolygu sut y mae cynghorau lleol yn darparu cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc. (OAQ4809)

**28. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau fydd e'n eu cymryd i hwyluso adfywiad trefol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. (OAQ4764)

**29. Nicholas Bourne (Canol a Gorllewin Cymru):** A all wneud datganiad yngln ag unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ddyrannu mwy o adnoddau tai i'r digartref yng Nghymru. (OAQ4759)

**30. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa strategaeth fydd yn cael ei defnyddio i wella tai o'r ansawdd isaf yng Nghymru. (OAQ4765)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

**1 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth y bwriedir ei dilyn i hybu arferion gorau ledled Cymru o ran ailgylchu defnyddiau a nwyddau. (OAQ4751)

**2 Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi gynnig sylwadau ar ddatblygiad y cynllun i drefnu bod nwyddau yn cael eu cario ar y rheilffyrdd ar draws Ynys Môn. (OAQ4788)

**3 Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa bwerau fydd gan y Cyngor Defnyddwyr Dwr newydd i gymryd camau ar ran ei gwsmeriaid yng Nghymru. (OAQ4731)

**4 Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut bydd y broses gynllunio yn cyfrannu at ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy. (OAQ4733)

**5 Gareth Jones (Conwy);** Beth yw polisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar waredu tir sy'n eiddo i Is-adran y Priffyrdd. (OAQ 4734)

**6 Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff hi ddatganiad ar hynt y Gyfarwyddeb Gynefinoedd yng Nghymru. (OAQ4729)

**7 William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff hi fonitro hynt y cynllun PFI ar gyfer ffordd ddosbarthu ddeheuol Casnewydd, ac adrodd yn ôl ar y mater. (OAQ4785)

**8 Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ynghylch y cyfleusterau parcio ceir yn Ysgol Pontnewydd ar Wy. (OAQ4760)

**9 Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar effaith pyrethroidau synthetig ar amgylchedd glannau afonydd. (OAQ4793)

**10 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod y Mesur Cefn Gwlad yn cael ei weithredu yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'n hanghenion unigryw yn y modd gorau posibl. (OAQ4752)

**11 Brian Gibbons (Aberafan);** Pa sylwadau y mae'r Ysgrifennydd wedi'u cael ynghylch pryder preswylwyr Stryd Tan-y-groes ym Mhort Talbot am y peryglon a'r niwed a achosir gan y traffig sy'n ymadael â'r M4 yng nghyffordd 40. (OAQ4721)

**12 Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ynghylch nifer y safleoedd tir glas a nodwyd mewn cynlluniau lleol, ac y mae adeiladau wedi'u codi arnynt ers hynny (OAQ4739)

**13 Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad roi diweddariad ar yr Adroddiad Amgylcheddol ar Rechem. (OAQ4782)

**14 Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi drefnu bod cyllid ychwanegol ar gael drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r ymddiriedolaethau bywyd gwyllt. (OAQ4758)

**15 David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff Ddatganiad ar ffordd liniaru'r M4 i'r de o Gasnewydd (OAQ4801)

16. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad am garthu tywod oddi ar ddyfroedd Cymru. (OAQ4761)

17. **Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa gynnydd a fu yn yr adroddiad amgylcheddol ar Rechem. (OAQ4781)

18. **Geraint Davies (Rhondda);** Pa fesurau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i atal prinder dr yn ystod yr haf. (OAQ4730)

19. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff hi ddatganiad ar yr angen i'r Cynulliad alw i mewn gam 3 o'r caniatâd cynllunio ar gyfer Ffordd Liniaru Aberhonddu. (OAQ4725)

20. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithredu cynlluniau ailgylchu. (OAQ4750)

21. **Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff hi ddatganiad ar effaith allyriadau o Atomfa Sellafield a'u heffaith ar Gymru. (OAQ4723)

22. **Brian Gibbons (Aberafan);** A all yr Ysgrifennydd roi'r adroddiad diweddaraf ar broblem erydu tywod yn ardal Jersey Marine o Fae Abertawe (OAQ4722)

23. **Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A oes gan yr Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i ehangu cludiant cyhoeddus ar gyfer y prif ardaloedd teithio-i'r-gwaith yn rhanbarthau Amcan 1 Cymru. (OAQ4742)

24. **David Davies (Mynwy);** Pa gamau y mae hi'n eu cymryd i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â tharged y Llywodraeth bod 60% o dai newydd yn cael eu hadeiladu ar dir a ddatblygwyd eisoes. (OAQ4797)

25. **Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa achos mae hi wedi'i gyflwyno i lywodraeth y DU i sicrhau bod y Cynulliad yn cydymffurfio â deddfau Ewrop ar warchod natur. (OAQ4728)

26. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A oes gan yr Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i ystyried lleoli mastiau ffônau symudol mewn adolygiad o bolisi a chanllawiau cynllunio i Gymru. (OAQ4743)

27. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa effaith y mae carthu tywod yn ei gael ar arfordir Cymru. (OAQ4762)

28. **Jane Davidson (Pontypridd);** Pa ddatblygiadau a wnaed o ran system drafnidiaeth integredig yng Nghymru? (OAQ4726)

29. **David Davies (Mynwy);** A all y Cynulliad weithredu "Cymal 28" Cymreig (OAQ4790)

30. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Sut mae'r Fenter Cyllid Preifat yn effeithio ar ddyrannu tir i'w ddatblygu a pha rôl sy'n cael ei rhoi iddi yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio (Cymru). (OAQ4735)